



Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

3 Ebrill 2020

Annwyl Lynne,

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor PPIA ddydd Iau 19 Mawrth, cytunais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith pandemig Covid-19 ar gynnydd prosesau atgyfeirio ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n aros am atgyfeiriadau, a sut y byddai'r cymhwyster AAT yn cael ei asesu.

O ran y prosesau atgyfeirio, rydym yn cydnabod bod y sefyllfa ddigynsail hon yn golygu nad yw'r systemau a'r prosesau presennol yn gweithredu fel y byddent fel arfer. Rydym yn annog dull ymarferol a hyblyg a bod gwasanaethau'n cael eu darparu o bell le bo hynny'n bosibl.

Bydd y sefyllfa bresennol yn effeithio ar atgyfeiriadau a wneir at seicolegwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r broses asesu a datgan statudol. Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn caniatáu ar gyfer pwerau brys dros dro i alluogi Gweinidogion Cymru, lle bo angen, i addasu'r gofynion cyfreithiol ar awdurdodau lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Rydym yn ystyried a oes angen i ni gymhwysu'r pwerau hyn yng Nghymru a byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am hyn cyn gynted â phosibl.

Lle'r oedd y broses berthnasol yn cynnwys mewnbwn gan glinigwyr, byddwch yn ymwybodol bod gweithgaredd arferol y GIG wedi'i gamu i lawr, a rhestrau aros wedi'u hatal. Bydd pobl ifanc yn cael eu cadw ar y rhestrau aros yn eu trefn. Lle gall gwasanaethau'r GIG ddarparu rhyw fath o weithredu, mae ffyrdd amgen o adolygu achosion fel adolygiad rhithwir yn cael eu hannog ac mae adnoddau i gefnogi hyn yn cael eu datblygu ledled Cymru. Os yw'r cyflwr cysylltiedig wedi dirywio ac yn cael mwy o effaith ar berson ifanc, efallai y bydd cleifion am gysylltu â'u meddyg teulu i gael cyngor. Fodd bynnag, bydd meddygon teulu hefyd yn delio â mwy o waith oherwydd y pandemig ac efallai na fyddant mewn sefyllfa i ymateb yn amserol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar yr ail weithred ddilynol, ysgrifennodd y Gymdeithas Technegwyr Trethiant (ATT) at yr holl ddysgwyr ar 20 Mawrth yn eu hysbysu, yn dilyn canslo arholiadau Mai 2020, y byddent yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer arholiadau ym mis Tachwedd 2020. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, a chwestiynau cyffredin pellach yn uniongyrchol ar wefan ATT <https://www.att.org.uk/may-2020-exams-faqs>.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education